

# Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer arbed ynni

Drwy ddilyn y camau syml hyn o amgylch y cartref, gallwch gadw'n gysurus ac arbed arian ar eich biliau ynni.

## Troi'r deial i lawr

Os byddwch yn troi eich thermostat i lawr dim ond 1°C, byddwch yn torri eich biliau gwresogi hyd at 10 y cant, gan arbed tua £80 y flwyddyn. Os oes gennych raglennydd, trefnwch i'r gwres a'r dŵr poeth ddod ymlaen pan fydd gartref ac nid drwy'r amser. Dylai'r thermostat fod ar y tymheredd isaf sy'n gyfforddus, fel arfer rhwng 18°C a 21°C.

## Cadw'r gwres

Bydd ffenestri, drysau a holltau yn yr eiddo yn gadael i wres ddiannu o'ch cartref. Gallwch brynu cynhyrchion atal drafftiau mewn siopau DIY ac arbed rhwng tua £25 y flwyddyn mewn biliau gwresogi.

## Rheoli'ch system wresogi

Mae thermostat eich ystafell yn troi eich system wresogi ymlaen, neu'n ei diffodd, yn unol â'r tymheredd a osodwyd. Mae llawer yn credu y bydd troi'r thermostat i fyny yn cynhesu eich cartref yn gynt, ond fydd hyn ond dim ond i dymheredd uwch y bydd hyn yn gwresogi eich cartref ac ni fydd yn gwneud hynny'n gynt. Bydd inswleiddio yn golygu bod eich cartref yn cynhesu'n gynt gan y bydd llai o wres yn cael ei golli drwy'r adeilad.

## Berwi ychydig

Os byddwch yn llenwi'r tegell gyda dim ond y dŵr sydd ei angen arnoch, byddwch yn arbed £7 mewn biliau ynni mewn blwyddyn.

## Golchwch ar 30°C

Os byddwch yn gosod eich peiriant golchi i olchi ar 30°C yn hytrach na thymheredd uwch, byddwch yn arbed £6 y flwyddyn ac yn defnyddio 40 y cant yn llai o drydan.

## Sychu dillad ar y lein

Gallwch arbed £30 y flwyddyn mewn trydan drwy

Mae'r arbedion ar gyfer tŷ pâr tair llofft cyffredin wedi'i wresogi gan nwy, yn seiliedig ar bris trydan o 14.37c/kWh a phris nwy o 3.80/kWh, cywir ym mis Ebrill 2017

sychu eich dillad ar y lein yn hytrach na defnyddio peiriant sychu dillad.

## Diffodd y cyfan

Diffoddwch eich goleuadau pan nad ydych yn eu defnyddio. Os byddwch yn diffodd golau hyd yn oed am ychydig o eiliadau, byddwch yn arbed mwy o ynni nag sydd ei angen i'r golau gynnu eto, waeth pa fath o olau sydd gennych. Bydd hyn yn arbed tua £14 y flwyddyn i chi ar eich biliau ynni.

## Llai o amser yn y gawod

Bydd treulio un munud yn llai yn y gawod bob dydd yn arbed £7 ar eich biliau ynni bob blwyddyn, ar gyfer pob person. Gyda mesurydd dŵr bydd hyn yn arbed £7 arall ar filiau dŵr a charthffosiaeth blyneddol, a phetai pawb mewn teulu pedwar person yn gwneud hyn, byddai'n arwain at arbed cyfanswm o bron £80 y flwyddyn.\*

\*Yn seiliedig ar gawod pŵer, gan gymryd bod pob person yn cael pum cawod yr wythnos

## Gwefru

Mae nifer y teclynnau, nwyddau trydanol ac electroneg bersonol rydym yn eu prynu ar gynnydd. Os byddwch yn diffodd y cynhyrchion hyn, gan gynnwys electroneg defnyddwyr, goleuadau a gwefryddion sydd wedi cael eu gadael mewn modd segur, neu sydd wedi cael eu gadael ymlaen ond heb eu defnyddio, gallech arbed tua £30 y flwyddyn.

## Goleuo

Os byddwch yn newid bwlb halogen gyda LED cyfatebol, byddwch yn arbed tua £90 mewn costau trydan dros oes y bwlb.\*

\*Yn seiliedig ar newid bwlb halogen 50W

Cysylltwch â Nyth ar Rhadffôn

**0808 808 2244**

i weld sut y gallwn eich helpu chi

